**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 25 Tachwedd, 2019**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 28 Tachwedd, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 5 Rhagfyr, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener 6 Rhagfyr, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y. b. tan 10:50 y.b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Ragfyr, 2019 hyd at Gorffennaf, 2020 fel y'i chyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfnaidau cynllunio o flaen llaw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cerdyn Sgorio Corfforaethol – Chwarter 2, 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Derbyn y Cerdyn Sgorio am Chwarter 2 2019/20 gan nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y'u crynhoir yn yr adroddiad, a**<br>**• Chefnogi'r mesurau lliniaru fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I adnabod a mynd i'r afael â meysydd sy'n tanberfformio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2019/20**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2019/20.**<br>**• Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**<br>**• Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH.**<br>**• Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2019/20 yn Atodiad D.**<br>**• Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2019/20 yn Atodiadau DD, E ac F.**<br>**• Cymeradwyo'r defnydd o Gronfa Wrth Gefn Pensiynau Ysgolion i gyllido'r** |

| | |
|---|---|
| | **tâl gwyliau sy'n ddyledus i staff llanw ysgolion ac sy'n dyddio'n ôl i Ragfyr, 2015 ar gost amcangyfrifiedig o £94k ar hyn o bryd ynghyd ag argostau, sef cyfanswm oddeutu £110k yn fras.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw am 2019/20** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2019/20**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>**• Nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf yn Chwarter 2 2019/20.**<br>**• Cymeradwyo dyrannu £75,000 yn ychwanegol tuag at gynllun cyfalaf Neuadd y Farchnad yn unol â pharagraff 3.1.1 yr adroddiad.**<br>**• Cymeradwyo £90,000 o fenthyca digefnogaeth i uwchraddio offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur yn unol â pharagraff 3.3.1 yr adroddiad.**<br>**• Cymeradwyo £20,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth yn unol â pharagraff 3.1.2 yr adroddiad.**<br>**• Cymeradwyo £8,000 o gyllideb cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun cae 3G yng Nghanolfan Hamdden David Hughes yn unol â pharagraff 3.3.2 yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am 2019/20.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro Cyllideb y CRT – Chwarter 2, 2019/20**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol -**<br><br>**• Y sefyllfa a nodir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2019/20.**<br>**• Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2019/20.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y CRT am 2019/20** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi cyfrifiad sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fydd yn cael ei ddefnyddio gan Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn 2020/21, sef 30,927.17. (Rhan E6 o Atodiad A i'r adroddiad)**<br>**• Cymeradwyo'r cyfrifiad at ddiben pennu Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 am y cyfan o'r ardal ac am rannau ohoni dros y flwyddyn 2020/21 (Rhan E5 o Atodiad A i'r adroddiad)**<br>**• Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor (Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o** |

| | |
|---|---|
| | **Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor (Cymru) (Diwygiad) 2016, y cyfansymiau mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrif fel Sylfaen y Dreth am 2020/21 fydd 31,532.53, ac fel a nodir yn nhabl 3 yr adroddiad am y rhannau hynny o'r ardal a restrir ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I alluogi'r Cyngor Llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2020/21.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau'n derfynol y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn gweithredu i ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Ysgogiad Economaidd Llywodraeth Cymru**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi'r cynnig o £491,330 o arian cyfalaf ar gyfer 2019/20.**<br>**• Cymeradwyo prosiectau ar y tir ger Peboc a hen Ysgol y Parc fel cynlluniau blaenoriaeth.**<br>**• Os bydd rhaid defnyddio cyfran neu'r cyfan o'r grant fel rhan o'r cyllid ar gyfer dymchwel hen Ysgol y Parc a Llyfrgell Caergybi, yna gellir defnyddio swm cyfatebol o dderbyniad cyfalaf yn** |

| | |
|---|---|
| | **2020/21 i gwblhau'r gwaith o ail-ddatblygu'r tir tu cefn i Peboc (os yw'r cynllun hwnnw wedi cychwyn yn 2019/20).**<br>**• Dirprwyo'r awdurdod i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio perthnasol i ddatblygu'r ddau brosiect i'r cyfnod gweithredu a chytuno i gyflawni cynlluniau cyfalaf cymwys eraill os na ddefnyddir yr arian i gyd ar y ddau brosiect blaenoriaeth.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo cynigion i ddefnyddio cylid ysgogiad economaidd Llywodraeth Cymru** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |